

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, nos Fawrth y 10fed o Fehefin 2014.

Yn bresennol oedd y Cyngorwyr OP Huws (Cadair), Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts - Llanllyfni; Harry Wyn Owen, Dafydd Glyn Owen - Talysarn; Elwyn Jones-Griffith, Barry Bracegirdle - Penygroes; Eurig Wyn Evans - Nebo.

Arolwg tai – Bydd Y Cyngorwyr yn dosbarthu ffurflenni arolwg tai yn y pentrefi er mwyn casglu data.

Cynllunio.

Derbyniwyd cais cynllunio Glanrafon, Nasareth – Codi ystafell haul a feranda a chaniatad ol weithredol ar gyfer ystafell aml bwrpas a storfa gardd. Penderfyniad y Cyngor oedd derbyn y cais.

Gohebiaeth.

Cyngor Gwynedd

*Ymatebion i gwynion - Derbyniwyd ymateb gan y Cyngor fod materion parcio ar Ffordd Clynnog wedi ei ddatrys; Bydd Colin Jones o Gyngor Gwynedd yn mynychu cyfarfod y Cyngor fis Gorffennaf i drafod parcio Llanllyfni; Derbyniwyd taflenni gwybodaeth parthed y gwasanaeth casglu gwastraff yng Ngwynedd.

*Gorchymyn Cyngor Gwynedd Deiliad Bathodynnau Anabl – Bae anabl wrth Bryn Llwyd, Penygroes. Y Cyngor yn derbyn.

*Cysgodfan bws Nasareth. Sedd y lloches bws wedi malu. Bydd y Cyngor yn trefnu i'r sedd gael ei adnewyddu.

Arall

*Derbyniwyd cais am gefnogaeth – Mynyddoedd Pawb, a chefnogwyd yr ymgyrch gant y cant.

*Derbyniwyd llythyr gan feddygfa Corwen House, Penygroes yn hysbysu'r Cyngor o'r camau sydd wedi eu cymryd ganddynt i gynnig cymorth i'w cleifion i gyfathrefu yn Saesneg yn y feddygfa. Diolch iddynt am ymateb, ac am y camau y maen't wedi eu cymryd i helpu pobl leol.

Gwefan Y Cyngor yn y broses o gasglu data.

Materion Pentrefi. Byddwn yn cysylltu efo Cyngor Gwynedd i ofyn wrthynt dorri'r Trim Trac yn Talysarn.

Llwybrau. Llwybr 84 heibio Fron Haul – croesi'r lon fawr, a giat at Lon Eifion – derbyniwyd adroddiad bod gwaith wedi ei wneud yno yn ddiweddar a'r llwybr wedi ei dinistrio, a bod dibyn ble'r oedd y llwybr i fod. Byddwn yn cysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

Materion yn ymweud a'r heddlu. Mynegwyd nad yw'r Heddlu wedi eu gwahodd i gyfarfodydd y Cyngor ers tro, ac felly gofynwyd i'r Clerc gysylltu gyda hwy i ofyn iddynt fynychu cyfarfod yn y dyfodol agos.